



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for **Wales**

Adroddiad Blynyddol Datgelu Camarfer 2022/23

Cyhoeddwyd: Medi 2023

Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn bodloni'r diffiniad o 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu Budd y Cyhoedd 1998. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi amddiffyniad i gyflogeion sy'n trosglwyddo gwybodaeth ynghylch drwgweithredu o dan rai amgylchiadau. Gall unigolion sydd am ddatgelu camarfer gysylltu â'r Comisiynydd Plant ynghylch materion yn ymwneud â hawliau, lles a materion sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw, yng Nghymru.

Cwblhawyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion cyfreithiol 'Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ynghylch Datgeliadau Gwybodaeth) 2017'. Mae'r rheoliadau hyn yn cyflwyno'r gofynion adrodd ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n Bersonau Rhagnodedig yng nghyswllt Datgelu Camarfer. Glynwyd hefyd at ganllawiau Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch Datgelu Camarfer ar gyfer Personau Rhagnodedig (2017) wrth ddrafftio'r adroddiad blynyddol hwn.



Ein pwerau a'n blaenoriaethau

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i sefydlu comisiynydd plant annibynnol, yn 2001. Deiliad presennol y swydd yw Rocio Cifuentes MBE, a gychwynnodd yn y swydd ym mis Ebrill 2022, ac a fydd yn cyflawni'r gwaith am saith mlynedd. Ei phrif nod yw diogelu a hybu hawliau a lles plant.

Mae pwerau statudol y Comisiynydd yn deillio o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001) a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001. Ceir rhagor o fanylion am bwerau statudol y Comisiynydd [yma](#).

Yn ystod ei blwyddyn gyntaf yn y swydd, treuliodd y Comisiynydd presennol amser yn gwrando ar filoedd o blant a phobl ifanc, yn ogystal â'u teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw ac ar eu rhan. Lanswyd arolwg cenedlaethol hefyd yn ystod 2022/23 i helpu i sefydlu amcanion strategol y Comisiynydd. Ymatebodd cyfanswm o 8,830 o blant a phobl ifanc, 507 o weithwyr proffesiynol ac 876 o rieni a gofalwyr. Mae'r safbwyntiau hyn wedi helpu i lywio [gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth tair blynedd](#) y Comisiynydd a chewch hyd i ddadansoddiad manwl o [ganfyddiadau'r arolwg](#) yma.



Datgeliadau camarfer a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 a'r camau gweithredu

Yn ystod y cyfnod cyfan o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023, bu Comisiynydd Plant Cymru yn ymdrin â'r canlynol:

Nifer yr achosion a ddaeth i law y barnwyd nad oeddent yn ddatgeliadau cymwys	1
Nifer yr achosion a gafodd eu trin fel datgeliadau cymwys a wnaed gan weithwyr	3
Nifer y datgeliadau cymwys lle penderfynodd Comisiynydd Plant Cymru gymryd camau pellach	1
Nifer y datgeliadau cymwys a gyfeiriwyd at gyrff eraill oedd mewn sefyllfa well i ymchwilio i'r pryderon; a oedd eisoes yn cael eu trin gan berson rhagnodedig arall; neu oedd yn cael eu trin trwy brosesau mewnol priodol	2

Crynodeb o'r math o gamau gweithredu a gymerwyd gan y person rhagnodedig yng nghyswllt y person cymwys o ran datgeliadau gwybodaeth cymwys.

Dydyn ni ddim wedi cynnwys unrhyw wybodaeth yn yr adran nesaf a allai arwain at adnabod datgelwr camarfer neu destun y datgelu camarfer, na pheryglu cyfrinachedd ymchwiliad sy'n parhau.

Cyflwynwyd pryder i ni ynghylch arfer awdurdod lleol yng nghyswllt recriwtio staff cymorth mewn ysgolion. Ceisiodd ein tîm Ymchwiliadau a Chyngor gydsyniad y cyswllt cychwynnol i godi pryderon gyda'r awdurdod lleol perthnasol. Ar ôl sicrhau cydsyniad, rhannwyd pryderon gyda Chyfarwyddwr Addysg yr awdurdod lleol. Yn eu hymateb, sicrhawyd cadarnhad ynghylch adolygiad ymarfer, gan gynnwys ailasesiad o arfer recriwtio, a chadarnhad bod deiliaid presennol swyddi yn meddu ar gymwysterau priodol. Roedd tîm y Comisiynydd yn fodlon ar yr ymateb, a bu'n cadw mewn cysylltiad â'r cyswllt cychwynnol i gadarnhau canlyniad yr ymgysylltu â'r awdurdod lleol.



Dysgu o ddatgeliadau

Mae'r holl brofiadau a thystiolaeth a geir gan wasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor y Comisiynydd, gan gynnwys y datgeliadau hyn, yn llywio ein cynlluniau gwaith strategol a blynyddol, ac yn rhoi cipolwg ar feysydd lle gallen ni ddymuno cloddio'n ddyfnach.

Mae'r tîm ehangach yn cymryd y materion a godwyd gyda ni i ystyriaeth wrth gynllunio ein gwaith dylanwadu ac ymgysylltu gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae'r datgeliadau a wnaed i ni hefyd yn cynorthwyo gallu'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol, yn arbennig ei phŵer i gyflwyno cynrychiolaethau i Lywodraeth Cymru ynghylch materion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant; ei phŵer i adolygu a monitro pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer cwynion, datgelu camarfer ac eiriolaeth cyrrff cyhoeddus, ei phŵer i archwilio achosion a'r pŵer i adolygu'r effaith ar blant wrth gyflawni swyddogaethau neu fwriadu cyflawni swyddogaethau cyrrff cyhoeddus a ddiffiniwyd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales